# Gwybodaeth Ychwangeol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwangeol at OAQ(3)0950(HER) a gyhoeddwyd gan Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, ar 10 Rhagfyr 2009

### At William Graham:

Gwnaethoch fy holi, yn ystod y sesiwn Cwestiynau Treftadaeth ar 25 Tachwedd, ynghylch hen Lofa'r Navigation yng Nghrymlyn.

Mae hwn yn safle pwysig â nifer fawr o adeiladau rhestredig, ac rwy'n gefnogol iawn i'r ffyrdd posibl o'i ailddefnyddio a fyddai'n adfywio'r ardal, gan gydnabod ei le yn ein treftadaeth ddiwydiannol.

Mae fy swyddogion yn Cadw wedi bod yn ymwneud â'r safle ers nifer o flynyddoedd. Ariannodd Cadw waith brys ar rai o'r adeiladau yn ogystal â thalu'n rhannol am astudiaeth ddichonoldeb yn 2001 i archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio'r safle yn y dyfodol a'r opsiynau ar gyfer ei ddatblygu. Mae'n safle mawr, wrth gwrs, a byddai rhaid gweithio mewn partneriaeth er mwyn i unrhyw fenter lwyddo.

Yn fwy diweddar, rwy'n deall bod ymddiriedolaeth cadwraeth adeiladau yn Sir Gaerfyrddin, sef Cadw Sir Gaerfyrddin Cyf, wedi mynegi diddordeb yn y safle a'i bwysigrwydd fel rhan o'n treftadaeth ddiwydiannol ac wedi bod yn trafod gyda swyddogion yn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad. Ynghyd â'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol, cynigiodd yr Adran grant ym mis Mawrth eleni i werthuso'r safle i weld a yw'n bosibl gweithredu rhaglen i ddechrau ailddefnyddio'r adeiladau.

Cynigir gweithgor o swyddogion o Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, Cadw, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r ymddiriedolaeth cadwraeth adeiladau i geisio mynd ati i atal yr adeiladau rhag dadfeilio ymhellach. Mae fy swyddogion yn Cadw yn barod i gyfrannu grant ychwanegol i'w hatgyweirio a'u hadnewyddu ond, fel yr wyf eisoes wedi'i nodi, mae hwn yn safle mawr ac mae unrhyw ffyrdd arfaethedig o ddatrys problemau yn debygol o fod yn ddrud.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0976(HER) a gyhoeddwyd gan Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, ar 3 Chwefror 2010

### At Joyce Watson:

Cyfeiriaf at yr ymrwymiad a wneuthum yn ystod Cyfarfod Llawn i geisio eglurhad pellach ynghylch Nofio am Ddim ym Mhwll Nofio Harlech pe bai'r gymuned yn dod yn gyfrifol am ei redeg.

Mae fy swyddogion wedi siarad â Chyngor Sir Gwynedd, ac mae ei swyddogion ef wedi dweud y byddant mewn sefyllfa i drafod y mater gyda'r Grŵp Cymunedol unwaith y bydd y Grŵp wedi llwyddo yn ei gais i gael arian i redeg y pwll fel un cymunedol.

Rwyf yn gobeithio bod y llythyr hwn yn helpu i egluro'r sefyllfa.